COLEG TREFECA

Elusen Gofrestredig Rhif 258456

Nodiadau ar gyfer Arweinwyr & Amodau Cofrestru Grŵp Preswyl

Diolch i chi am drefnu ymweld â Choleg Trefeca. Rydym yn anelu at beidio â chael gormod o "reolau", ond mae gofynion y gyfraith ac yswiriant yn golygu fod rhaid i ni dynnu'ch sylw at ambell beth, a gosod rhai **Amodau Cofrestru.** Mae'r nodiadau hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth y gobeithiwn y bydd o gymorth wrth arwain eich grŵp.

Trefniadau llogi

Holwch am logi cyn gynted ag y gallwch, yn enwedig os ydych am drefnu penwythnos yn y gwanwyn, yr haf neu'r hydref. Yn aml, fe logir y rhain ddwy flynedd ymlaen llaw.

Gallwn dderbyn **llogiad amodol** ar y ffôn neu'r e-bost. Byddwn wedyn yn cadw'r dyddiadau am chwe wythnos (llai na hynny os ydynt yn fuan iawn), ac yn danfon ffurflen fwcio atoch. Os dychwelwch y ffurflen wedi ei llenwi gyda'ch blaendal o fewn chwe wythnos, yna fe gadarnheir y trefniant ac fe allwch ddechrau trefnu eich grŵp. Os nad ydych yn clywed gennych o fewn y chwe wythnos, fe geisiwn gysylltu â chi eto. Ond fe gadwn yr hawl dan amgylchiadau felly i logi'r dyddiadau i grŵp arall.

Os trefnir dyddiadau ymhell ymlaen, dichon na fyddwn yn gallu cadarnhau'r **pris** wrth wneud y trefniant yn y lle cyntaf. Ond byddwn yn ysgrifennu atoch ym mis Tachwedd cyn i chi ddod yn gosod y pris ar gyfer eich grŵp.

Mae ein pris yn "holl-gynhwysol", yn cynnwys defnyddio'n holl gyfleusterau. Ond:

- Rydym yn cadw'r hawl i godi tâl ychwanegol os oes gennych grŵp o llai na 25 ac am gadw'r holl gyfleusterau i chi'ch hunain neu am ddefnyddio ein hystafelloedd dau wely ar gyfer un yn unig, os yw hynny yn ein rhwystro rhag derbyn ymwelwyr eraill.
- Fe ofynnwn i chi ddarparu eich papur eich hun ar gyfer y fflip siart, tryloywderau ar gyfer y taflunydd, deunyddiau celf a chrefft, ayb.
- Rydym yn cadw'r hawl i godi arnoch am unrhyw ddifrod a wneir tra eich bod yma.

Ein nod yw sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei atal rhag dod atom oherwydd diffyg arian yn unig. Fe allwn ddefnyddio cronfeydd elusennol i gynorthwyo gyda'r gost i'r sawl na allant fforddio dod fel arall. Nid oes angen manylion ariannol unigolion arnom i wneud hyn. Rydym hefyd yn croesawu rhoddion i wneud hyn yn bosibl.

Tua 6-8 wythnos cyn i chi gyrraedd, os nad ydym wedi clywed gennych yn ddiweddar, byddwn yn cysylltu â chi i sicrhau fod pob dim yn iawn ac i gael gwybod yn fras faint sy'n dod a beth fydd eich rhaglen, fel y gallwn drefnu ar eich cyfer.

Deng niwrnod cyn i chi gyrraedd, byddwn yn gofyn i chi am:

1. Eich niferoedd terfynol, gan gynnwys nifer y plant, pobl ifainc ac eraill a ddaw am bris gostyngol.
2. Eich rhaglen derfynol, gan gynnwys amserau prydau bwyd, anghenion am becynnau cinio, amserau cyrraedd ac ymadael, ayb.
3. Unrhyw anghenion arbennig eraill, e.e. gwelyau plant, cylch clywed, ayb.

Cesglwch **dâl** aelodau'ch grŵp cyn neu wrth iddynt gyrraedd. Dylid gwneud sieciau yn daladwy i **Coleg Trefeca**, a dylent fod mewn arian Prydeinig. Ni allwn dderbyn cardiau

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com

cyfnewid, cardiau credyd na chardiau debyd. Rydym yn disgwyl derbyn eich tâl llawn wrth i chi gyrraedd. Ni allwn gynnig telerau eraill.

Yswiriant ac atebolrwydd cyfreithiol

Ni all Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Ymddiriedolwyr Coleg Trefeca dderbyn unrhyw **gyfrifoldeb** tu hwnt i'r hyn sy'n statudol am ddiogelwch ymwelwyr na'u heiddo tra'u bod yng Ngholeg Trefeca. Nid yw yswiriant Coleg Trefeca yn gymwys ar gyfer unrhyw weithgaredd gan ymwelwyr y tu hwnt i ffiniau'r Coleg, nac ar gyfer unrhyw weithgaredd o fewn y Coleg na chafodd ganiatâd penodol y Warden. Eich cyfrifoldeb chi, arweinydd y grŵp, fydd trefnu unrhyw yswiriant y credwch ei fod angen arnoch.

Ni all Coleg Trefeca fod yn gyfrifol am unrhyw gamau cyfreithiol a gymerir o ganlyniad i gynnwys eich rhaglen, oni bai ei bod dan arweiniad aelod o'n staff. Dylech fod yn ymwybodol yn enwedig am y gyfraith am wahaniaethu ar sail hil, rhyw neu anabledd.

Rydych chi, arweinydd y grŵp, hefyd yn gyfrifol am unrhyw beth a dorrir neu a ddifrodir gan eich plant, boed yn eiddo i'r Coleg, trigolion lleol neu ymwelwyr eraill.

Diogelwch plant, pobl ifainc ac oedolion bregus

Os ydych yn trefnu gweithgarwch ar gyfer plant neu bobl ifainc, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn gwybod am delerau'r Ddeddf Plant a deddfau eraill.

Yn 2001 fe fabwysiadodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru Bolisi Diogelwch Plant, sydd yn berthnasol hefyd i oedolion bregus. Dyma'r Datganiad Polisi:

Polisi Eglwys Bresbyteraidd Cymru yw diogelu lles pob plentyn ac unigolyn ifanc drwy'i amddiffyn rhag esgeulustod, a rhag niwed corfforol, rhywiol ac emosiynol. Fel Eglwys yr ydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddiogelu lles ein haelodau a'r rhai a ymddiriedir i'n gofal. Bydd aelodau'r Eglwys, gweithwyr cyflog a gweithwyr gwirfoddol bob amser yn dangos parch at hawliau plant a dealltwriaeth ohonynt, gan hybu ethos o wrando ar blant ac o sicrhau eu diogelwch a'u lles, gan ymddwyn mewn modd a adlewyrcho egwyddorion yr Eglwys Gristnogol.

Mae gweithwyr cyflog Coleg Trefeca wedi derbyn hyfforddiant yn oblygiadau ymarferol y polisi hwn. Ond nid ydym yn cyflogi gweithwyr plant a ieuenctid hyfforddedig, a rydym yn disgwyl i bob grŵp sy'n cynnwys plant, pobl ifainc neu oedolion bregus wneud eu trefniadau eu hunain am ofalu am aelodau'r grŵp.

- Mae'r rhan fwyaf o enwadau a chymdeithasau sy'n llogi Coleg Trefeca eisoes wedi mabwysiadu polisi tebyg, a'ch **cyfrifoldeb chi, arweinydd y grŵp**, fydd sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r polisi perthnasol a'i oblygiadau.
- Dylech dderbyn ffurflen gofrestru wedi ei harwyddo ar ran pob plentyn, person ifanc neu oedolyn hawdd ei niweidio sy'n mynychu heb eu rhieni neu warcheidwaid, a dylai'r ffurflen gynnwys caniatâd i chi drefnu triniaeth feddygol mewn achos brys. Dylai fod gennych hefyd gan bob oedolyn fydd â mynediad sylweddol a heb oruchwyliaeth i blant, pobl ifainc ac oedolion bregus ar wahân i'w plant eu hunain yn ystod eich arhosiad ddatganiad wedi'i arwyddo yn cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw record droseddol berthnasol. Dylai fod gennych hefyd o leiaf un geirda – gorau oll os oes dau – ar gyfer pob oedolyn perthnasol. Ar ôl Ebrill 2003, dylid gwirio'r datganiad hwn trwy'r Biwro Cofnodion Troseddol gan ddefnyddio un o'r cyrff ymbarél. Cewch fwy o fanylion gan eich enwad neu gymdeithas. Dylech ganiatáu digon o amser i gyflawni hyn.

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com

- Rhaid goruchwylio plant, pobl ifainc ac unrhyw ymwelwyr eraill all fod angen goruchwyliaeth gan oedolyn cyfrifol **drwy'r amser**, tu fewn a'r tu allan i'r adeilad**. Eich cyfrifoldeb chi, arweinydd y grŵp, yw sicrhau fod hyn yn digwydd.** Os oes unrhyw broblem tra eich bod yn aros gyda ni, fe fyddwn yn troi atoch chi yn y lle cyntaf. **Trwy arwyddo'r ffurflen llogi, rydych yn cytuno i dderbyn cyfrifoldeb am drefnu a monitro goruchwyliaeth y plant, pobl ifainc ac oedolion bregus yn eich grŵp.**
- Pan fo rhieni neu warcheidwaid yn dod gyda'u plant eu hunain, byddem yn disgwyl i rieni a gwarcheidwaid ofalu am eu plant eu hunain pan nad ydynt yng ngofal arweinydd sydd wedi'i hyfforddi a'i gofrestru'n briodol. Dylech esbonio hyn i bob rhiant a gwarcheidwad.
- Nid yw'n bosibl gweld pob rhan o'r gerddi o du fewn i'r adeilad. Nid oes ffens rhwng y gerddi a'r heol, ac mae'r gerddi ar agor i'r cyhoedd yn ystod oriau dydd. Felly, pan fo plant, pobl ifainc neu oedolion bregus tu allan, mae'n rhaid darparu goruchwyliaeth y tu allan hefyd.
- Mae'n arbennig o bwysig trefnu goruchwyliaeth pan fo un neu fwy o unigolion yn ymadael â'r brif garfan – er enghraifft, drwy adael y ford yn gynnar adeg bwyd neu fynd i'r tþ bach.

Cymorth Cyntaf

Gofynnir i ymwelwyr ddod â'u **moddion** rheolaidd eu hunain. Gellir prynu aspirin yn y siop, i'w ddefnyddio ar risg yr ymwelydd. Nid yw'r **blwch Cymorth Cyntaf** wrth ddesg y Dderbynfa yn cynnwys unrhyw feddyginiaeth nac eli, gan nad yw cymwysterau Cymorth Cyntaf ein staff yn caniatáu iddynt roi meddyginiaeth i neb.

Dylid rhoi gwybod i'r Warden ar ddyletswydd mor fuan ag y bo modd am unrhyw **ddamweiniau** a ddigwydd yn y Coleg, hyd yn oed os nad oes angen triniaeth. Mae yna Lyfr Damweiniau yn y siop, a bydd y Warden yn eich helpu i'w lenwi.

Trefnu'r ystafelloedd gwely

Mae gennym gyfanswm o 37 o welyau ar gael yn y Bloc Preswyl. Mae pob ystafell yn cynnwys dau wely sengl, ar wahân i Ystafell 3, sy'n cynnwys gwely sengl a gwely bync. Mae'r ystafell hon wedi ei haddasu ar gyfer ymwelwyr ag anabledd. Mae yna un ystafell dau wely ychwanegol yn yr hen Goleg. **Mae'n rhaid i chi logi'r ystafell hon ymlaen llaw**, gan ei bod yn cael ei defnyddio ar gyfer gwirfoddolwyr a chyfnodau sabothol.

Atodir rhestr wag o'r ystafelloedd ar ddiwedd y nodiadau hyn er mwyn i chi drefnu'r ystafelloedd yn addas. Noder bod y toiledau a'r cawodydd agosaf at Ystafelloedd 1, 2 a 4 lawr llawr ac Ystafelloedd 9, 10, 11 a 12 yn y llofft. Mae gan Ystafell 3 gyfleusterau en-suite wedi eu haddasu yn arbennig ar gyfer ymwelwyr a chanddynt anabledd.

Mae ychydig o **welyau plentyn** ar gael ar gyfer babanod a phlant bach, neu fe all ymwelwyr ddod â'u gwelyau eu hunain. Fe ellir gosod matras ar lawr ystafell ar gyfer plentyn sydd am gysgu gyda'i rieni, ond nid oes llawer o le ar ôl wedyn!

Sicrhewch fod yna gopi o'r rhestr ystafelloedd gyflawn wrth y Dderbynfa. Dylid cofnodi unrhyw newidiadau arni, gan fod y rhestr hon yn cael ei defnyddio os oes angen galw enwau pawb mewn argyfwng.

Atgoffwch aelodau'ch grŵp i ddod â **thyweli** gyda nhw.

Gwaetha'r modd, nid oes gennym **ystafell sychu** ar gyfer esgidiau cerdded, cotiau glaw, ayb, ac efallai y bydd angen i chi ystyried hyn wrth drefnu'ch rhaglen.

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com

Ysmygu

Noder **na chaniateir ysmygu** o fewn yr adeiladau, gan i synwyryddion mwg gael eu gosod ymhob ystafell i gwrdd â gofynion y rheolau tân, a hefyd er tegwch i fwyafrif llethol ein hymwelwyr, nad ydynt yn ysmygu.

Anifeiliaid anwes

Ni allwn bellach groesawu anifeiliaid anwes (ag eithrio cŵn tywys) i'r adeilad.

Amser cloi a Diwrnod ymadael

Noder ein bod yn **cloi'r drysau** am 11 bob nos, ac fe ofynnwn i bob sŵn beidio erbyn hynny, er lles ymwelwyr a phreswylwyr Trefeca sydd am gysgu.

Rhaid gwagio ystafelloedd gwely erbyn 9.30 ar y **bore olaf**. Gofynnwn i ymwelwyr ein cynorthwyo drwy dynnu'r dillad uchaf oddi ar y gwely a'r gobennydd wrth ymadael.

Os yw hyn yn debyg o achosi trafferth, yna trafodwch y peth â ni ymlaen llaw. Fel arfer, fe allwn wneud trefniant i gwrdd â'ch anghenion.

Prydau bwyd

Mae lle i 36 fwyta yn yr Ystafell Fwyta. Mae 2 gadair uchel ar gael. Mae lle i 16 o bobl ychwanegol fwyta yn y Llyfrgell. Cyrhaeddir yr Ystafell Fwyta trwy ddisgyn y grisiau neu defnyddio'r lifft cadair o'r cyntedd blaen. Ceir mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn trwy ddrws allanol cefn y Coleg.

Ceisiwch drefnu'ch rhaglen o amgylch yr amserau canlynol:

8.30am **Brecwast (9am ar fore Sul os y dymunwch)**

12.45pm **Cinio**

6.00pm **Swper**

Gellir darparu bwyd poeth neu oer rywfaint yn hwyrach ar eich noson gyntaf, os ydych yn disgwyl i bobl gyrraedd yn hwyr. Cadarnhewch y manylion gyda ni ymlaen llaw. **Os gofynnwch i ni aildwymo bwyd ar gyfer hwyr-ddyfodiaid, fe weinir y bwyd hwnnw ar eich risg eich hunain. Rydym yn argymell fod pawb yn cyd-fwyta**.

Os hoffech i'ch prydau gael eu gweini ar amserau gwahanol i'r uchod, yna cysylltwch â ni ar eich cyfle cyntaf i drafod y posibiliadau. Cofiwch mai nifer fach sy'n gweithio yn y gegin, ac ni allwn fel arfer ddisgwyl iddynt weithio y tu hwnt i'w horiau arferol.

Darperir **coffi'r bore (gyda bisgedi cartref), te prynhawn (gyda theisen gartref) a diodydd hwyr** i chi weini'ch hunan wrth y bar coffi. Gellwch gynnwys y rhain yn eich rhaglen yn ôl eich cyfleustra. Cedwir llaeth, te, coffi, powdwr diod siocled, powdwr diod brag (Horlicks) a bisgedi wrth y bar.

Mae ein **bwydlen** arferol yn cynnwys brecwast ysgafn a dau brif bryd yn ystod y dydd. Os hoffech drafod y fwydlen yn fanwl, yna ffoniwch ni yn ddigon pell ymlaen llaw.

Sicrhewch ein bod yn cael gwybod am unrhyw **anghenion arbennig** gyda'r bwyd. Os yw bwydlen unigolyn yn anarferol o gymhleth, yna rhowch fanylion i ni ar bapur. Mae'n ddefnyddiol i'r gegin gael gwybod beth *ellir* ei fwyta yn ogystal â beth na ellir ei fwyta. Noder na chynigir dewis i'r prif gwrs, ag eithrio trwy drefniant ymlaen llaw ar gyfer y sawl sydd â diet arbennig.

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com

Cyn belled ag y bo modd, gweinir bwyd sy'n rhydd o elfennau wedi eu newid yn genetig. Ni allwn warantu na fydd olion cnau mewn ambell bryd. Dylai'r sawl sy'n dioddef gan alergedd ein hysbysu am hynny.

Fe ofynnwn i ymwelwyr ein cynorthwyo wrth weini'r bwyd, clirio'r ford ar derfyn pob saig, a gosod y ford ar gyfer y pryd nesaf. Efallai yr hoffech drefnu rota.

Gan fod y pris a gytunir â chi yn cynnwys gostyngiad sylweddol ar bris pob pryd o'i gymryd ar wahân, ni allwn gynnig ad-daliadau i ymwelwyr unigol am golli ambell bryd. Gallwn fel arfer ddarparu **pecyn bwyd** yn lle un o'r prydau os cawn wybod ymlaen llaw.

Os hoffwch roi **cildwrn** i staff y gegin, fe ofynnwn i chi drefnu casgliad. Am resymau cyfreithiol, gofynnwn i chi gyflwyno'r arian parod yn uniongyrchol i'r staff.

Cyfleusterau ar gyfer cyfarfodydd a chynadleddau

Os oes **grŵp arall** wedi llogi Coleg Trefeca ar yr un dyddiad(au) â chithau, yna fe drafodwn â chi ymlaen llaw i sicrhau fod gan bob grŵp y cyfleusterau sydd eu hangen.

Mae'r **ystafelloedd cyfarfod** canlynol ar gael:

- Mae lle i 27 eistedd yn y **Lolfa** ynghanol y Coleg, ac mae lle i hyd at 40 gyda chadeiriau ychwanegol. Mae yna deledu (ar gyfer gwylio fideos – nid oes iddo erial allanol), system sain C-Dd/casét/radio, a phiano (ar gyfer canwyr profiadol yn unig). Mae'r Lolfa yn hygyrch i bawb, gan gynnwys y sawl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Ni chaniateir i neb fynd â bwyd a diod i'r lolfa, ac ni ddylech drefnu gweithgareddau all greu llanast yma.
- Cyrhaeddir **Ystafell Defynnog** trwy ddringo chwe gris safon hygyrch o'r cyntedd blaen. Gellir ei defnyddio fel ystafell gemau, neu fel ystafell gynadledda ar gyfer hyd at 60 o bobl (a'r offer gemau wedi'i osod o'r neilltu). Gellir cael hyd at 80 i'r ystafell o fenthyg cadeiriau o weddill yr adeilad.
- Lleolir y **Llyfrgell** ger yr Ystafell Fwyta, ac mae'n hygyrch i bawb. Mae lle i 12 eistedd mewn cadeiriau esmwyth a hyd at 20 gyda chadeiriau ychwanegol.
- Mae'r **Capel Bach** yr ochr draw i Lôn y Coleg. Mae'n hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae lle i 24 eistedd ar y meinciau. Mae lle i hyd at 40 gyda chadeiriau neu glustogau ar lawr. Fe gedwir y capel ar agor, ac mae croeso i ymwelwyr droi i mewn i fwynhau'r tawelwch a'r hedd ac i weddïo a myfyrio. Cynhelir **Defosiwn Dyddiol** yma am 9.15 y bore ar ddyddiau gwaith, oni bai fod hyn yn cyd-daro â'ch trefniadau addoli chi.
- Mae lle i 20 eistedd yn gyfforddus yn lolfa'r **Fynedfa**. Mae'r ardal hon yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com

Mae'r cyfleusterau a'r offer canlynol ar gael:

- Ceir nifer o gyfieithiadau Cymraeg a Saesneg o'r **Beibl** yn y Lolfa a'r Llyfrgell. Cedwir ein prif lyfrau emynau, *Caneuon Ffydd* a *BBC Songs of Praise*, yn y Lolfa. Ceir detholiad o lyfrau emynau a thonau eraill – holwch am fanylion.
- Gellir darparu **setiau cymundeb** (yn cynnwys platiau, cwpan fawr a/neu cwpanau unigol). Gallwn ddarparu bara a gwin di-alcohol neu gydag alcohol. Cedwir nifer o drefnau gwasanaeth dwyieithog i'w benthyg.
- **Pianos:** Ceir piano ar gyfer canwyr profiadol yn unig yn y Lolfa. Mae piano i'w "chwarae" yn Ystafell Defynnog. Nid oes offeryn yn y Capel Bach, ond mae croeso i chi ddod ag un gyda chi.
- Yn ogystal â'r system yn y Lolfa, mae **system sain symudol** ar gael i'w benthyg.
- Cedwir **taflunydd dros ysgwydd (OHP) a sgrîn**. Darperwch eich tryloywderau eich hunan, os gwelwch yn dda. Mae **taflunydd sleidiau carousel** a hen daflunydd ar gyfer sleidiau a stribedi ffilm ar gael i'w benthyg. Mae bwrdd fflip siart hefyd ar gael. Dewch â'ch papur eich hun.
- Gellir gosod **cyfarpar cyfieithu neu gylch clywed drwy radio**. Mae yna gylch clywed gyda gwifrau yn y Lolfa ac Ystafell Defynnog. Gofynnwch am y rhain ymlaen llaw, os gwelwch yn dda, gan eu bod yn cymryd peth amser i'w gosod.

Cyfleusterau ar gyfer yr ymwelwyr

- Darperir **pecyn gwybodaeth am y Coleg a'r ardal** ym mhob ystafell wely.
- Mae yna ddetholiad o **daflenni am atyniadau lleol ac amserlenni bws a thrên** ar hysbysfwrdd y Dderbynfa. Mae yna hefyd rhai taflenni am ddim. Rydym yn cadw detholiad o fapiau a thywyslenni ar gyfer teithiau cerdded i'w benthyg.
- Trefnir agor **Amgueddfa Howell Harris** ar amser cyfleus pan fyddwch yn aros. Gellir trefnu gweld cartref Howell Harris, bellach yn gartref i'r Wardeniaid.
- Mae'r **Siop** yn gwerthu llyfrau a chardiau Cymraeg a Saesneg; cardiau post, stampiau a nwyddau Trefeca; crochenwaith a chanhwyllau lleol; crysau-T a chrysau chwys; losin, siocled a diodydd ysgafn; cyffaith a marmalêd cartref; a nwyddau Traidcraft. Agorir y siop fynychaf cyn ac ar ôl cinio a swper, ac ar adegau eraill trwy drefniant. Deallwn y bydd rhai grwpiau am drefnu stondin lyfrau.
- Mae'r **Llyfrgell** yn cynnwys llyfrau, cyfnodolion, tapiau fideo a sain a llyfrynnau Cymraeg a Saesneg. Mae croeso i ymwelwyr ddarllen a benthyg y rhain.
- **Teledu & fideo** yn y Lolfa a'r Llyfrgell. Dim ond y teledu yn y Llyfrgell all dderbyn signal drwy'r erial – derbynnir BBC1 Cymru, BBC2 Cymru, HTV Cymru ac S4C.
- **Offer gemau** ar gyfer gemau dan do (yn Ystafell Defynnog) ac awyr agored**:** Gofynnir i arweinydd y grŏp lofnodi wrth dderbyn yr offer ar ddechrau'ch cwrs. a bod yn gyfrifol am ei ddefnyddio'n gywir a'i gadw'n ddiogel.
- Mae **Gerddi'r Coleg** at ddefnydd ymwelwyr a thrigolion lleol yn ystod oriau'r dydd. Ond mae **Capel Coffa Howell Harris** a'r rhannau hynny o'r gerddi a warchodir gan ffens **yn waharddedig** i ymwelwyr.

Os ydych mewn amheuaeth am unrhyw beth, gofynnwch. Rydym yma i'ch helpu.

Trefor Lewis, Mair Jones – Wardeniaid

Diweddarwyd 10.05.03

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com

Ystafelloedd / Room Allocation

Grŵp/Group: ……

Dyddiadau/Dates:……

Lawr Llawr – Downstairs **Rhif Ystafell/ Room No:**	**Lan Lofft - Upstairs** **Rhif Ystafell / Room No:**
1	9
2	10
3*	11
4	12
5	13
6	14
7	15
8	16
* Mae ystafell 3 yn 'en-suite' ac yn addas ar gyfer ymwelwyr anabl neu deuluoedd ifanc – gwely bync a gwely sengl	17
* Room 3 is En-Suite and suitable for disabled visitors or families – (3 beds) bunk bed and single bed	18

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com